# Sut mae safbwyntiau seicolegol yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant

## Y Dull Gwybyddol – Bruner

| Damcaniaethwr dull | Prif agweddau'r dull neu'r ddamcaniaeth sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant | Cymhwyso'r dull ar gyfer ymarferwyr gofal plant ac addysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau |
|---|---|---|
| Gwybyddol:<br><br>Bruner<br><br>**Geiriau allweddol:**<br>- Cwricwlwm Sbiral<br>- Enactif<br>- Eiconig<br>- Symbolaidd<br>- Darganfyddol | Credai Jerome Bruner fod damcaniaethau megis ymddygiadaeth yn cynnwys agweddau pwysig ar ddysgu megis cymhelliant a greddf. Fel Piaget, datblygodd ddamcaniaeth datblygu fesul cam. Cynigiodd Bruner fodel, gyda thri dull o feddwl yn gysylltiedig â phrofiad, nid oedran. Credai mai bwriad addysg yw creu dysgwyr ymreolaethol sydd wedi dysgu sut i ddysgu; cyflwynodd dri model o gynrychiolaeth fel rhan o'i ddamcaniaeth ddysgu a chyflwynodd gysyniadau dysgu darganfyddol (discovery learning) a'r cwricwlwm sbiral.<br><br>**Cynrychiolaeth enactif (0-1 oed):** Gan storio gwybodaeth yn seiliedig ar weithredoedd yn y cof, credai Bruner y gall plant ac oedolion ddwyn i gof dasgau drwy gof cyhyrol.<br><br>**Cynrychiolaeth eiconig (1-6 oed):** Y gallu i storio lluniau meddyliol. Pan fydd plant yn dysgu gwybodaeth newydd, gall helpu os oes ganddynt ddelweddau gweledol a diagramau i atgyfnerthu esboniadau llafar.<br><br>**Cynrychiolaeth symbolaidd (7 oed a throsodd):** Mae'r dull hwn yn ffordd fwy cymhleth o ddysgu yn seiliedig ar iaith. Mae'r meddwl yn cofio gwybodaeth drwy iaith, geiriau ac arwyddion mathemategol, ac yn eu storio a'u dosbarthu'n feddyliol. Mae damcaniaeth luniadaethol Bruner yn awgrymu y dylai pob dysgwr, yn cynnwys oedolion, brofi'r tri model dysgu o enactif i eiconig, i symbolaidd. | Mae'r cwricwlwm sbiral yn seiliedig ar y cysyniad y gellir dysgu gwybodaeth gymhleth i blentyn o unrhyw oed os caiff ei haddysgu mewn ffordd sy'n briodol o ran oedran a gallu. Credai Bruner y dylid dysgu gwybodaeth ar ffurf syml i ddechrau, ac yna ychwanegu ati'n nes ymlaen ar ffurf fwy cymhleth. Drwy wneud hyn, gellir addysgu unrhyw gysyniad neu bwnc ar lefelau fwyfwy anodd.<br><br>Mae damcaniaeth Bruner yn datgan bod plant yn llunio eu dysg eu hunain drwy drefnu, categoreiddio a chodio gwybodaeth. Credai mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw drwy ddarganfod gwybodaeth yn hytrach na chael athro yn ei dweud wrthych. Rôl yr athro yw cefnogi a hwyluso dysgu drwy gynorthwyo'r broses o ddarganfod. |